

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Trosolwg o Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru



JNCC

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales




**Legend**

0 62.5 125 250 km

- 12mf a dyfroedd môr mawr Cymru \ 12nm and Welsh offshore waters
- Môr Iwerddon \ Irish
- Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd \ Western Channel & Celtic Sea

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018
Arolwg Ordnans 100019741
© Crown Copyright and database right 2018
Ordnance Survey licence number 100019741
Tachwedd\November 2018

## Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 5

2 Sut y caiff Parthau Cadwraeth Morol eu pennu ..... 6

3 Datblygu Ardaloedd Chwilio ..... 9

3.1 Ystyriaethau ar gyfer datblygu Ardaloedd Chwilio ..... 9

4 Trosolwg o'r moroedd rhanbarthol yn nyfroedd Cymru ..... 11

4.1 Rhanbarth Môr Iwerddon ..... 13

4.2 Rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd ..... 16

5 Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru ..... 19

6 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio A ..... 23

6.1 Cyfiawnhad ..... 23

6.2 Trosolwg ..... 23

6.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol ..... 27

6.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos ..... 32

7 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio-B ..... 33

7.1 Cyfiawnhad ..... 33

7.2 Trosolwg ..... 33

7.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol ..... 36

7.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos ..... 40

8 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio D ..... 41

8.1 Cyfiawnhad ..... 41

8.2 Trosolwg ..... 41

8.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol ..... 44

8.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos ..... 45

9 Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd – Ardal Chwilio-E ..... 46

9.1 Cyfiawnhad ..... 46

9.2 Trosolwg ..... 46

9.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol ..... 52

9.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos ..... 55

10 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio-F .......... 56
10.1 Cyfiawnhad .......... 56
10.2 Trosolwg .......... 56
10.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol .......... 59
10.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos .......... 62
11 Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd – Ardal Chwilio-GH .......... 63
11.1 Cyfiawnhad .......... 63
11.2 Trosolwg .......... 63
11.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol .......... 68
11.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos .......... 70
12 Atodiad A: Diffygion yn y rhwydwaith sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd .......... 71
13 Atodiad B: Hyder yn nata cynefinoedd ar raddfa fawr .......... 76

# 1 Cyflwyniad

Nod Prosiect Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yw sicrhau bod y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru yn rhoi lefel ddigonol o ddiogelwch i'r holl gynefinoedd a rhywogaethau a geir yng Nghymru. Yn 2016 a 2018, dadansoddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru gyfraniad Cymru at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU. Daeth y dadansoddiad o'r rhwydwaith i'r casgliad bod y rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau eisoes yn cael eu diogelu ar y safleoedd presennol. Fodd bynnag, ceir nifer bach o ddiffygion yn y rhwydwaith. Ymhelaethir ar y diffygion hyn yn Atodiad A. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol er mwyn sicrhau y caiff y diffygion eu hunioni.

Mae Dogfen ar y Broses ar gael ar wefan y prosiect sy'n nodi cefndir y prosiect, yr angen i gwblhau'r rhwydwaith a'r dull a ddefnyddir i nodi Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru. Mae Cwestiynau Cyffredin hefyd ar gael ar wefan y prosiect.


Er mwyn cefnogi'r broses hon, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn nodi Parthau Cadwraeth Morol sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn nyfroedd Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol sy'n cynrychioli buddiannau eu sector. Mae gan y Grŵp gadeirydd annibynnol ac mae'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cefnogi'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, lle y bo angen, sy'n cynnwys rhoi cyngor technegol a gwyddonol o fewn eu rolau statudol.

Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael wedi'i defnyddio drwy gydol y broses hon[1]. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cais am ddata yn gofyn i randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth (p'un a yw'n dystiolaeth fiolegol neu economaidd-gymdeithasol) i'w hystyried o fewn y broses hon. Mae manylion y cais hwn am ddata i'w gweld ar wefan y prosiect.

[1]Nid yw pob gweithgaredd wedi'i gynnwys yn hyn ac rydym ond wedi cynnwys data lle y ceir tystiolaeth. Gwyddom fod gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal, ond bydd y prosiect yn defnyddio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ceisiadau am ddata a gweithgarwch ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid i lenwi'r bwlch hwn mewn tystiolaeth.


## 2 Sut y caiff Parthau Cadwraeth Morol eu pennu

Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r camau allweddol yn y broses o ddewis Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y camau perthnasol yn y Ddogfen ar y Broses ar [wefan y prosiect](#).




Ffigur 1: Proses fesul cam ar gyfer dewis Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion yn y Ddogfen ar y Broses.

Gellir crynhoi'r broses fel un sy'n dechrau gydag ardal fawr bosibl sy'n lleihau'n raddol ac yn dod yn fwyfwy manwl wrth i'r broses ddatblygu. Mae diagram sy'n dangos y broses hon yn Ffigur 2.




Ffigur 2: Trosolwg o'r broses ddewis ar gyfer nodi Parthau Cadwraeth Morol posibl yn nyfroedd Cymru.

Er mwyn dechrau'r broses hon, gwnaethom ddatblygu mapiau er mwyn dangos ble mae'r diffygion yn y rhwydwaith i'w cael. Wedyn, cafodd graddau'r diffygion eu nodi'n fanylach drwy ddileu cynefinoedd neu rywogaethau diffygiol sydd eisoes yn cael eu diogelu mewn ardaloedd cadwraeth arbennig (ACAau), sy'n gorgyffwrdd â seilwaith presennol (e.e. ffermydd gwynt) neu sy'n weithgareddau trwyddedig ar hyn o bryd (e.e. tiroedd gwaredu deunydd a garthwyd). Cyfeirir at seilwaith presennol, gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a chynefinoedd sy'n cael eu gwarchod mewn ACAau, gyda'i gilydd, fel yr 'Haen Las'. Cyflwynwyd gweddill yr ardaloedd o gynefinoedd a rhywogaethau diffygiol fel Ardaloedd Chwilio Cyffredinol, a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'r Ardaloedd Chwilio Cyffredinol yn nodi dosbarthiad y diffygion mewn cynefinoedd a rhywogaethau yn nyfroedd Cymru ac yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y diffygion. Ceir rhagor o fanylion am y ffordd y datblygwyd yr Ardaloedd Chwilio Cyffredinol yn y papur cryno ar wefan y prosiect.

Cafodd grid 10 km ei droshaenu ar yr Ardaloedd Chwilio Cyffredinol. Defnyddiodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig y dystiolaeth a oedd ar gael a'r deunyddiau ategol eraill yn yr Ardaloedd Chwilio Cyffredinol i gyflwyno sgwariau grid a allai fynd i'r afael â'r diffygion yn y rhwydwaith ac, ar yr un pryd,

leihau'r effeithiau economaidd-gymdeithasol. Arweiniodd hyn at ‘Ardaloedd Chwilio’ [2] a gyflwynir yn y ddogfen hon er gwybodaeth. Roedd nifer o reolau cyffredinol wrth awgrymu Ardal Chwilio. Roedd y rhain yn cynnwys bod yn ddigon mawr i gynnig sawl opsiwn ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol posibl; ceisio mynd i'r afael â mwy nag un diffyg (er mwyn lleihau nifer y safleoedd sydd eu hangen); sicrhau gwasgariad daearyddol, yn enwedig er mwyn cynnwys dyfroedd dyfnach lle mae gan Ardaloedd Morol Gwarchodedig arwynebedd bach. Mae'r Ardaloedd Chwilio yn cael eu cyflwyno drwy weithgarwch ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, diwrnodau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfarfodydd un i un er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r broses a chasglu adborth ar yr ardaloedd y bydd Prosiect Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru yn canolbwyntio arnynt ar gyfer cam nesaf y broses, sef diffinio ffiniau ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol posibl. Bydd cyfle hefyd i randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth drwy gais am ddata er mwyn i unrhyw bryderon economaidd-gymdeithasol allu cael eu nodi a'u cynnwys yn y trafodaethau ynghylch lle y dylai'r Parthau Cadwraeth Morol posibl fod wedi'u lleoli. Ceir manylion y cais am ddata a ffurflenni cyflwyno ar wefan y prosiect.

Yn ystod cam nesaf y broses (Cam 3), caiff Parthau Cadwraeth Morol posibl eu dewis o'r tu mewn i'r Ardaloedd Chwilio. Caiff adborth a data a gafwyd o'r cais am ddata eu hadolygu gan dîm y prosiect a'u defnyddio i ddrafftio Parthau Cadwraeth Morol posibl. Caiff y broses hon ei harwain gan dystiolaeth a chaiff ffiniau cychwynnol ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol posibl eu dewis gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Wedyn, caiff y Parthau Cadwraeth Morol posibl hyn eu hadolygu gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ar ôl i Barthau Cadwraeth Morol posibl gael eu dewis, yn ystod Cam 4 bydd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu cyngor statudol ar y cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru a fydd wedyn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn ystod Cam 5 o'r broses. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddir cais pellach am ddata er mwyn casglu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r Parthau Cadwraeth Morol posibl a ddewiswyd. Am ragor o fanylion am y broses o ddewis Parthau Cadwraeth Morol, gweler Y Ddogfen ar y Broses ar wefan y prosiect.

[2] Noder, yn ystod y broses ddewis, i'r term ‘Ardaloedd Chwilio’ ddisodli ‘Ardaloedd a Ffefrir’

## 3 Datblygu Ardaloedd Chwilio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn nodi Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ffordd y cafodd pob un o'r Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru eu nodi, gan amlinellu'r ystyriaethau cyffredinol a chyfyngiadau'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael.

Cyflwynir pob un o'r Ardaloedd Chwilio yn fanwl, gan roi'r canlynol:

- Disgrifiad o'r ardal a mapiau o gynefinoedd
- Cyfiawnhad dros ei dewis
- Trosolwg o rai gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal a'r pwysau cysylltiedig y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt

Mae'r Ardal Chwilio hefyd wedi'i chrynhoi'n daflenni ffeithiau.

**Noder:**

**Mae'r mapiau yn y ddogfen hon yn Ardaloedd Chwilio, NID ydynt yn gynigion ar gyfer Parthau Cadwraeth Morol.**

### 3.1 Ystyriaethau ar gyfer datblygu Ardaloedd Chwilio

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i warchod y nodweddion diffygiol mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. I'r perwyl hwn, mae'r broses yn cael ei harwain gan nodweddion ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y diffyg lleiaf ar gyfer pob nodwedd yn cael ei gynrychioli'n ddigonol yn y rhwydwaith. Y digonolrwydd lleiaf a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yw 10% ar gyfer cynefinoedd ar raddfa fawr. Nid yw hyn yn atal ardaloedd mwy o faint rhag cael eu cyflwyno i'w hystyried yn ystod camau olaf y prosiect.

Mae'r dull gweithredu a nodwyd wrth ddewis yr Ardaloedd Chwilio wedi canolbwyntio ar ddosbarthiadau cynefinoedd a rhywogaethau diffygiol yn ogystal â rhai meysydd o weithgareddau economaidd-gymdeithasol. Ymdrinnir ag ystyriaethau eilaidd eraill, megis adolygu bioamrywiaeth ychwanegol, yn ystod y cam nesaf lle y caiff ffiniau Parthau Cadwraeth Morol posibl eu dewis. Er y caiff ffactorau economaidd-gymdeithasol eu hystyried

drwy gydol y broses, canolbwyntir ar ystyriaethau o ran rheoli yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch Parthau Cadwraeth Morol posibl (yn ystod camau 4 a 5 o'r broses).

Er mwyn gwarchod y nodweddion diffygiol yn effeithiol, gellir ystyried gweithgareddau sy'n creu pwysau y mae'r nodweddion yn eithaf sensitif neu'n sensitif iawn iddynt ar gyfer eu rheoli. Mae'r rhestrau o weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr adrannau dilynol ar Ardaloedd Chwilio yn weithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn yr ardal ac sy'n gysylltiedig â'r pwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Fe'u cafwyd o daenlenni'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur sy'n rhoi cyngor ar weithrediadau ar gyfer cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Cydnabyddir bod llawer o weithgareddau masnachol a hamdden yn cael eu cynnal yn yr Ardaloedd Chwilio (er enghraifft: pysgodfeydd sy'n defnyddio cychod llai na 12m o hyd a chychod siarter). Fodd bynnag, ni fu'n bosibl adlewyrchu pob lefel/math o weithgaredd yn fanwl gywir am nad oedd data a/neu wybodaeth ar gael ar yr adeg hon.

Mae data'r System Monitro Cychod (VMS) a gofnodwyd rhwng 2016 a 2018, a gafwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol, wedi cael eu defnyddio a'u dehongli gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur er mwyn nodi gweithgarwch pysgota dangosol yn yr Ardaloedd Chwilio. Dim ond y gweithgareddau hynny sydd wedi'u cynnwys yn set ddata'r System Monitro Cychod a'r rhai y gwyddys fod y nodweddion diffygiol yn sensitif iddynt, sydd wedi'u cynnwys. Noder nad yw hon yn rhestr ddiffiniol o weithgarwch pysgota yn yr ardal.

Un o nodau'r broses hon yw lleihau effeithiau economaidd-gymdeithasol. Felly, gofynnir i aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a rhanddeiliaid ehangach roi gwybodaeth ychwanegol er mwyn darparu rhagor o fanylion a gwybodaeth gyd-destunol am yr ardaloedd. Os ydych yn ymwybodol o ddata ychwanegol sydd ar gael ynghylch gweithgareddau economaidd-gymdeithasol yn yr ardal, cysylltwch â Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Ddogfen ar y Broses a Chwestiynau Cyffredin sydd ar gael ar [wefan y prosiect].

## 4 Trosolwg o'r moroedd rhanbarthol yn nyfroedd Cymru

Mae moroedd y DU wedi'u rhannu'n 'foroedd rhanbarthol' sy'n seiliedig ar nodweddion biolegol a daearyddol[3]. Mae dyfroedd Cymru yn gorgyffwrdd â dau ranbarth, sef Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd (mae map trosolwg o'r rhanbarthau i'w weld ar dudalen flaen y ddogfen hon). Ar raddfa'r moroedd rhanbarthol y cafodd cyfraniad Cymru at rwydwaith y DU o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei asesu. Mae gan Gymru rwydwaith helaeth o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer cynefinoedd morol. Mae Ffigur 3 yn cyflwyno'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yn nyfroedd Cymru. Fodd bynnag, nododd yr asesiad o'r rhwydwaith a gynhaliwyd yn 2016 fod nifer bach o ddiffygion yn y Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer rhai gwaddodion islanw ac ychydig o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig o safbwynt cadwraeth.


Pennir diffygion fel rhai

- y mae llai na 10% o gyfanswm eu harwynebedd mewn môr rhanbarthol yn cael ei warchod mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer cynefinoedd ar raddfa fawr
- sydd ag o leiaf 3 enghraifft o gynefinoedd a rhywogaethau dan fygythiad a/neu sy'n dirywio a nodir ar restr OSPAR a chynefinoedd a rhywogaethau ar restr dros dro Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru)[4] sy'n cael eu gwarchod yn y môr rhanbarthol.

Ceir manylion y nodweddion diffygiol yn Atodiad A.

[3] Rhannodd yr adroddiad, 'The Charting Progress 2: State of the Seas Report', a gyhoeddwyd yn 2010, foroedd y DU yn wyth rhanbarth yn seiliedig ar eu nodweddion biolegol a daearyddol. Ceir dyfroedd tiriogaethol Cymru yn rhanbarthau Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd.


[4] Gweler Tablau 1 a 2 yn y Ddogfen ar y Broses am ragor o wybodaeth am Feini Prawf Asesu'r Rhwydwaith




Ffigur 3: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol yn ôl môr rhanbarthol

### 4.1 Rhanbarth Môr Iwerddon

Mae rhan Cymru o'r môr rhanbarthol yn ymestyn o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn Aber Afon Dyfrdwy yn y gogledd i Benmaendewi yn Sir Benfro yn y de (gweler Ffigur 4). Mae'r rhanbarth yn cynnwys dyfroedd bas yn bennaf hyd at ddyfnder o 20m ym Mae Aberteifi, Bae Caernarfon a Bae Lerpwl. Mae'n mynd yn fwyfwy dwfn ymhellach i ffwrdd o'r glannau. Mae'r rhan ddyfnaf o'r rhanbarth, sydd â dyfnderoedd o 100m neu fwy, yng ngogledd Sianel San Siôr. Gwaddodion yn bennaf yw'r cynefinoedd ar wely'r môr, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cynnwys tywodydd a mathau gwahanol o raean yn gymysg â llaid. Riffau creigiog sydd o amgylch Ynys Môn, Pen Llŷn a gogledd Sir Benfro yn bennaf. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ym Môr Iwerddon nad ydynt yn cael eu gwarchod yn ddigonol yn nyfroedd Cymru.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018
Arolwg Ordnans 100019741
© Crown Copyright and database right 2018
Ordnance Survey licence number 100019741
Tachwedd\November 2018


Ffigur 4: Rhanbarth Môr Iwerddon yn nyfroedd Cymru

Tabl 1: Crynodeb o'r nodweddion â diffyg yn y rhwydwaith yn rhanbarth Môr Iwerddon

| **Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru yn rhanbarth Môr Iwerddon** | **Rheswm dros y diffyg** | **Faint o gynefin neu atgynhyrchiad[5] sydd ei angen er mwyn unioni'r diffyg** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | 542 km$^2$ |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | 185.7 km$^2$ |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Mae angen dau safle ychwanegol ym Môr Iwerddon |
| Riff mwydod Ross | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Nid oes unrhyw safleoedd ym Môr Iwerddon ar hyn o bryd. Bydd safleoedd ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd data |
| Môr-wyntyll pinc | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Nid oes unrhyw safleoedd ym Môr Iwerddon ar hyn o bryd. Bydd safleoedd ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd data |

Dengys Ffigur 5 fap cynefinoedd o ranbarth Môr Iwerddon sy'n dangos y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer presenoldeb a chwmpas y nodweddion diffygiol a restrir yn Tabl 1. Mae pob enghraifft o seilwaith presennol, gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a chynefinoedd a warchodir mewn ACAau sy'n gorgyffwrdd â nodweddion diffygiol yn y rhwydwaith yn cael ei dangos fel yr 'Haen Las' gyda glas tywyll yn cynrychioli seilwaith presennol a gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a glas golau yn cynrychioli cynefinoedd a warchodir mewn ACAau Gweddill yr ardaloedd yw'r ardal chwilio gyffredinol. Mae Atodiad B yn crynhoi'r hyder sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd o gynefinoedd a fapiwyd.

[5] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.





Ffigur 5: Diffygion yn y rhwydwaith yn rhanbarth Môr Iwerddon.

## 4.2 Rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd

Mae rhan Cymru o ranbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn ymestyn o Benmaendewi yn Sir Benfro i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn aber Afon Gwy yn aber Afon Hafren (

Ffigur 6). Mae gan y rhanbarth ardaloedd glannau mwy bas sy'n ymestyn hyd at ddyfroedd dyfnach o lawer yn y de-orllewin, gyda'r rhannau dyfnaf hyd at 200m i'w cael o amgylch Celtic Deep. Mae gwely'r môr yn cynnwys tywodydd bras a mathau o raean yn bennaf graen yng ngogledd y rhanbarth, gydag ardaloedd helaeth o dywod yn symud tua'r de ac ardal helaeth o laid yn yr ardal dde-orllewinol bellach o'r rhanbarth amgylchedd Celtic Deep. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r nodweddion yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd nad ydynt yn cael eu gwarchod yn ddigonol yn nyfroedd Cymru.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018
Arolwg Ordnans 100019741
© Crown Copyright and database right 2018
Ordnance Survey licence number 100019741
Tachwedd\November 2018


Ffigur 6: Rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn nyfroedd Cymru.

Tabl 2: Crynodeb o'r nodweddion â diffyg yn y rhwydwaith yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd

| **Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru yn rhanbarth y Sianel Orllewino a'r Môr Celtaidd** | **Rheswm dros y diffyg** | **Faint o gynefin neu atgynhyrchiad[6] sydd ei angen er mwyn unioni'r diffyg** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | 81.1 km$^2$ |
| Tywod islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | 25.7 km$^2$ |
| Llaid islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | 215.2 km$^2$ |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Mae angen un safle ychwanegol yn nyfroedd Cymru |
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Mae angen un safle ychwanegol yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor (*Arctica islandica*) | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Mae angen un safle ychwanegol yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |

Dengys Ffigur 7 fap cynefinoedd o ranbarth y Sianel Orllewin a'r Môr Celtaidd Iwerddon sy'n dangos y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer presenoldeb a chwmpas y nodweddion diffygiol a restrir yn Nhabl 2. Mae pob enghraifft o seilwaith presennol, gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a chynefinoedd a warchodir mewn ACAau sy'n gorgyffwrdd â nodweddion diffygiol yn y rhwydwaith yn cael ei dangos fel yr 'Haen Las' gyda glas tywyll yn cynrychioli seilwaith presennol a gweithgareddau sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd a glas golau yn cynrychioli cynefinoedd a warchodir mewn ACAau. Mae Atodiad B yn crynhoi'r hyder sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd o gynefinoedd a fapiwyd.

[6] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.




Ffigur 7. Diffygion yn y rhwydwaith yn Rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd


## 5 Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru

Nodwyd cyfanswm o 11 o Ardaloedd Chwilio i ddechrau gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig; pump wedi'u lleoli ym Môr Iwerddon (A – F yn Ffigur 8), pump yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd (G – J yn Ffigur 8) ac un sy'n gorgyffwrdd â'r ddau fôr rhanbarthol (E yn Ffigur 8). Pan adolygwyd pob ardal gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, penderfynwyd cyflwyno chwe Ardal Chwilio yn nyfroedd Cymru i'w hystyried. Mae'r rhain wedi'u nodi â chylchoedd coch yn Ffigur 8 . Rhoddir y rhesymau pam na chyflwynwyd rhai o'r Ardaloedd Chwilio i'w hystyried yn Tabl 3.

Tabl 3: Ardaloedd Chwilio nas cyflwynwyd i'w hystyried

| Ardal Chwilio | Rhesymau dros beidio â'i chyflwyno i'w hystyried |
|---|---|
| Ardal Chwilio-C | Mae ardaloedd eraill yn rhanbarth Môr Iwerddon yn cynnig mwy na digon o gyfleoedd i unioni'r diffygion cyfatebol.<br>Nid yw'n cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r gofyniad i sicrhau bod nodweddion diffygiol mewn dyfroedd dyfnach yn cael eu cynrychioli.<br>Mae'n gorgyffwrdd ag Ardal Cadwraeth Arbennig bresennol sy'n gwarchod y nodweddion diffygiol cyfatebol. |
| Ardal Chwilio-I | Mae ardaloedd eraill yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn cynnig mwy na digon o gyfleoedd i unioni'r diffygion cyfatebol.<br>Nid yw'n cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r gofyniad i sicrhau bod nodweddion diffygiol mewn dyfroedd dyfnach yn cael eu cynrychioli.<br>Mae'n gorgyffwrdd ag Ardal Cadwraeth Arbennig bresennol sy'n gwarchod y nodweddion diffygiol cyfatebol. |
| Ardal Chwilio-J | Mae ardaloedd eraill yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn cynnig mwy na digon o gyfleoedd i unioni'r diffygion cyfatebol.<br>Nid yw'n cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r gofyniad i sicrhau bod nodweddion diffygiol mewn dyfroedd dyfnach yn cael eu cynrychioli.<br>Mae'n agos i Ardal Cadwraeth Arbennig bresennol sy'n gwarchod y nodweddion diffygiol cyfatebol. |

Mae Tabl 4 a Tabl 5 yn crynhoi, o safbwynt diffygion, pa gyfuniad o Ardaloedd Chwilio y gellid ei ddewis i unioni diffyg pob nodwedd yn rhanbarthau Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Mae'r celloedd yn y tabl wedi'u lliwio er mwyn helpu i grynhoi pa Ardal Chwilio neu ba gyfuniad o ardaloedd a fyddai'n cynnig digon o gyfleoedd i unioni'r diffyg. *Noder bod ystyriaethau pellach y dylid rhoi sylw iddynt a ddarperir yn yr adrannau unigol ar yr Ardaloedd Chwilio yn y ddogfen hon.*




Ffigur 8: Trosolwg o Ardaloedd Chwilio yn nyfroedd Cymru. Mae Ardaloedd Chwilio sydd i'w cyflwyno wedi'u nodi â chylchoedd coch

Tabl 4: Crynodeb o ddiffygion yr Ardaloedd Chwilio ym Môr Iwerddon

| Diffyg | Ardal Chwilio-A | Ardal Chwilio-B | Ardal Chwilio-D | Ardal Chwilio-E[7] | Ardal Chwilio-F |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | √ (ar y glannau yn unig) | Yn rhannol | Yn rhannol | Yn rhannol | X |
| Gwaddod cymysg islanw | Yn rhannol | √ | √ | Yn rhannol | X |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | Yn rhannol | X | X | X | Yn rhannol |
| Riff mwydod Ross | √ | X | X | X | X |
| Môr-wyntyll pinc | X | X | X | X | √ |

Tabl 5: Crynodeb o ddiffygion yr Ardaloedd Chwilio yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd

| Diffyg | Ardal Chwilio-E | Ardal Chwilio-GH |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | √ | √ |
| Tywod islanw | √ | √ |
| Llaid islanw | X | √ |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | √ | √ |
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | X | √ |
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | √ | √ |

Allwedd:

| | |
|---|---|
| √ | Yr unig gyfle i unioni'r diffyg yn y môr rhanbarthol. Mae dewis yr Ardal Chwilio hon yn hanfodol i unioni'r diffyg yn y rhanbarth hwn. |
| Yn rhannol | Dim ond yn rhannol y mae'n unioni'r diffyg yn y môr rhanbarthol. Un o ddwy enghraifft yn y môr rhanbarthol. Mae dewis y ddwy yn hanfodol i unioni'r diffyg yn y rhanbarth hwn. |
| √ | Cyfle i unioni'r diffyg yn y môr rhanbarthol yn llwyr. |
| √ (ar y glannau yn unig) | Cyfle i unioni'r diffyg ar gyfer y môr rhanbarthol ond nid yw'n cynnwys cynefin yn rhanbarth y môr mawr |

[7] Mae Ardal Chwilio-E wedi'i lleoli ar draws ffin y ddau fôr rhanbarthol ac, felly, mae wedi'i chynnwys yn y ddau drosolwg rhanbarthol o Ardaloedd Chwilio

| | |
|---|---|
| Yn rhannol | Cyfle i unioni'r diffyg yn y môr rhanbarthol yn rhannol. Mae angen mwy nag un Ardal Chwilio i unioni'r diffyg. |
| X | Nid yw'r nodwedd ddiffygiol i'w chael yn yr Ardal Chwilio |

# 6 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio A

## 6.1 Cyfiawnhad

Mae Tabl 6 yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio A a rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae pob un o'r Ardaloedd Chwilio ym Môr Iwerddon yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 4.


Tabl 6: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-A

| **Nodwedd Ddiffygiol** | **Cyfiawnhad** |
|---|---|
| Riff mwydod Ross | Yr unig gyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon. Yr unig leoliad ym Môr Iwerddon lle y ceir cofnodion cyson o'r nodwedd dros sawl blwyddyn. |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefinoedd creigiog islanw | Un o ddau gyfle sydd eu hangen i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon. Un o ddau leoliad ym Môr Iwerddon lle y ceir cofnodion cyson y tu allan i'r riff presennol a geir yn yr Ardal Forol Warchodedig. |
| Gwaddod bras islanw | Yr unig gyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr |
| Gwaddod cymysg islanw | Cyfleoedd i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol |
| **Cyfiawnhad: Parthau dyfnder** | |
| Mae Ardal Chwilio-A yn ardal glannau yn bennaf. Er mwyn sicrhau bod egwyddor rhwydwaith cysylltedd yn cael ei bodloni'n llwyr, byddai angen ardal ychwanegol ar gyfer Gwaddod bras islanw a Gwaddodion cymysg islanw mewn dyfroedd dyfnach. | |

## 6.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio A yn Ffigur 9, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 7. Mae Tabl 8 a Tabl 9 yn rhoi crynodeb o arwynebeddau'r nodweddion diffygiol (mewn $km^2$) neu nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio A; cyfanswm yr arwynebedd neu nifer yr atgynyrchiadau sydd ei angen/eu hangen i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-A unioni'r diffygion. Mae Tabl 10 yn nodi sut y byddai Ardal Chwilio-A yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 9: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-A

Tabl 7: Disgrifiad o Ardal Chwilio-A

| | |
|---|---|
| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-A |
| **Môr Rhanbarthol** | Môr Iwerddon |
| **Lleoliad cyffredinol** | Gogledd a gorllewin Ynys Môn |
| **Maint** | 1,290 $km^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y glannau ac ar y môr (ar y glannau yn bennaf)[8] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Gwaddod bras islanw<br>• Gwaddod cymysg islanw<br>• Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefinoedd creigiog islanw<br>• Riff mwydod Ross |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r ardal yn cynnwys gwaddod bras islanw yn bennaf yng nghorneli de-orllewinol a gogledd-ddwyreiniol yr Ardal Chwilio. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd tameidiog o waddod cymysg islanw ym mhob rhan o'r ardal hon. Mae cofnodion o gymunedau sbwng ac anthosoaid bregus a riff mwydod Ross wedi'u lleoli yn hanner gorllewinol Ardal Chwilio-A. Dangosir map trosolwg o'r Ardal Chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 9 |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-A 10 km i'r dwyrain o Ardal Chwilio-B (Gweler Ffigur 8 am fanylion) |

Tabl 8: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-A

| **Diffyg** | **Arwynebedd yn Ardal Chwilio ($km^2$)** | **Arwynebedd ($km^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg ym Môr Iwerddon** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 721 $km^2$ | 542 $km^2$ |
| Gwaddod cymysg islanw | 91 $km^2$ | 186 $km^2$ |

Tabl 9: Crynodeb o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau dan fygythiad a/neu sy'n dirywio a nodir ar restr OSPAR a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ar restr dros dro Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a geir yn Ardal Chwilio-A

[8] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.

| Diffyg | Nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A | Atgynhyrchiad[9] sydd ei angen i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon |
|---|---|---|
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | 15 | Mae angen 2 atgynhyrchiad |
| Riff mwydod Ross | 25 | Bydd safleoedd ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd data |

Tabl 10: Cyfraniad Ardal Chwilio-A ar rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru[10]

| Diffyg | Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru | | |
|---|---|---|---|
| | Cynrychiolaeth | Atgynhyrchiad | Cysylltedd |
| Gwaddod bras islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod o leiaf 10% o'r nodwedd ddiffygiol yn y rhanbarth | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Nid yw arwynebedd yr ardal a geir yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cysylltedd ar draws parthau o wahanol ddyfnder. Mae pob safle presennol lle mae'r cynefin hwn yn cael ei warchod ar hyn o bryd hefyd ar y glannau. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod (tua 10 km i ffwrdd) |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae arwynebedd yr ardal a geir yn Ardal Chwilio-A ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad yn rhannol. Mae angen 91 $km^2$ ychwanegol o gynefin i unioni'r diffyg | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Nid yw arwynebedd yr ardal a geir yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cysylltedd ar draws parthau o wahanol ddyfnder. Mae pob safle lle mae'r cynefin hwn yn cael ei warchod ar hyn o bryd hefyd ar y glannau. |

[9] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.
[10] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod (tua 10 km i ffwrdd) |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli ym Môr Iwerddon | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A ond yn cynnig cyfleoedd i rannol fodloni'r gofyniad i atgynhyrchu'r nodwedd ym Môr Iwerddon. Mae angen un enghraifft arall er mwyn sicrhau'r isafswm o 3 atgynhyrchiad | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cysylltedd y nodwedd hon am fod cynefin tebyg yn cael ei warchod o fewn 80 km i Ardal Chwilio-A. |
| Riff mwydod Ross | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli ym Môr Iwerddon | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-A ond yn cynnig cyfleoedd i rannol fodloni'r gofyniad i atgynhyrchu'r nodwedd ym Môr Iwerddon. Fodd bynnag, hon yw'r unig ardal bosibl sydd ar gael i'w hystyried oherwydd argaeledd data | Nid oes unrhyw ACAau ym Môr Iwerddon lle mae'r rhywogaeth hon yn cael ei gwarchod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hon yw'r unig ardal bosibl sydd ar gael i'w hystyried oherwydd argaeledd data |

### 6.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol

Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.


- Trwyddedu Morol – Ar y glannau: dau gais trwyddedu morol yn yr Ardal Chwilio.
- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Olew a Nwy: mae piblinellau yn croesi'r Ardal Chwilio
- Gweithgarwch yn gysylltiedig â Phorthladdoedd a Morgludiant: ceir un man angori a thri pholygon angori yn yr Ardal Chwilio.
- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Ynni Gwynt Adnewyddadwy ceir un ardal o Gyfyngiadau Llym ar Ffermydd Gwynt ar y Môr yn yr Ardal Chwilio.

- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Ynni Ffrwd Lanw Adnewyddadwy: Ceir dwy ardal lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ac un ardal sy'n destun cais cyn cynllunio ar gyfer Datblygiadau Ffrwd Lanw ar y Môr yn yr Ardal Chwilio.
- Carthu Morol a Gwaredu: ceir chwe Safle Gwaredu Morol sydd wedi'u Trwyddedu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Ardal Chwilio.
- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd): Mae lefelau isel o bysgota â threillrwydi trawst a threillrwydi dyfnforol a llusgrwydo wedi'u nodi yn yr ardal.



Gwyddys fod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon (e.e. pysgota â chewyll, cychod siarter ac ati). Fodd bynnag, nid oes gennym ddata cyfredol cynhwysfawr i'w cynnwys ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Mae Ffigur 10 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.


Cofrestrwyd ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-A gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[11] sy'n cynnwys safleoedd gwaredu, cytundebau sy'n ymwneud â cheblau, cytundebau arfordirol, gwynt, a thonnau a llanw. Dangosir gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ffigur 11.





11 Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.

| Pysgota â Threillrwydi Canolddwr yn y DU | Potiau a Thrapiau yn y DU |
| --- | --- |
|  |  |

Ffigur 10: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-A wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.




Ffigur 11: Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-A





Ffigur 12: Mesurau rheoli presennol yn Ardal Chwilio-A

Mae Ffigur 12 yn nodi'r mesurau rheoli presennol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-A. Mae'r polygonau a amlinellir mewn glas yn rhan o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010, sy'n cyfyngu ar bysgota am gregyn y brenin (*Pecten maximus*) o fewn y marc penllanw cymedrig i ardal o fewn 1 filltir forol i'r lan o amgylch arfordir cyfan Cymru ac mewn ACAau ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol. Mae ardaloedd ychwanegol sydd i'w gweld i'r gogledd a'r gorllewin o Ynys Môn wedi'u cau oherwydd cofnodion o gregyn dilyw. Mae iVMS wedi'i gosod ar bob cwch sy'n pysgota am gregyn bylchog a chyflwynir y data i is-adran gorfodi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

## 6.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos

Mae dwy ACA ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-A, sef: Glannau Môn: Cors heli  Bae Cemlyn a ddangosir yn Ffigur 13. Nid oes yr un o'r nodweddion diffygiol yn cael eu gwarchod yn yr ACAau hyn.

Mae'r ardal hefyd yn agos iawn i Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy.




Ffigur 13: Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol sy'n agos i Ardal Chwilio-A.

## 7 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio-B

### 7.1 Cyfiawnhad

Mae Tabl 11 yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio-B a rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae pob un o'r Ardaloedd Chwilio ym Môr Iwerddon yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 4.


Tabl 11: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-B

<table>
<tr><th>Nodwedd Ddiffygiol</th><th>Cyfiawnhad</th></tr>
<tr><td>Gwaddod bras islanw</td><td>Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol. Bydd angen Ardal Chwilio arall er mwyn bodloni'r gofyniad yn rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr.</td></tr>
<tr><td>Gwaddod cymysg islanw</td><td>Cyfle i unioni'r diffyg ar gyfer rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr. Nid oes angen unrhyw Ardaloedd Chwilio eraill.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Cyfiawnhad: Parthau dyfnder</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Ardal Chwilio-B yn ardal môr mawr yn bennaf, sy'n helpu i fodloni egwyddor rhwydwaith cysylltedd am fod safleoedd lle mae gwaddodion bras islanw a gwaddodion cymysg islanw eisoes yn cael eu gwarchod wedi'u lleoli ar y glannau.</td></tr>
</table>

### 7.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-B yn Ffigur 14, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 12. Mae Tabl 13 yn rhoi crynodeb o arwynebeddau'r nodweddion diffygiol (mewn km2) yn Ardal Chwilio-B; cyfanswm yr arwynebedd i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-B unioni'r diffygion. Mae Tabl 14 yn nodi sut y byddai Ardal Chwilio-B yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 14: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-B

Tabl 12: Disgrifiad o Ardal Chwilio-B

| | |
|---|---|
| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-B |
| **Môr Rhanbarthol** | Môr Iwerddon |
| **Lleoliad cyffredinol** | Gorllewin Ynys Môn |
| **Maint** | 994 km$^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y môr yn unig[12] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Gwaddod bras islanw<br>• Gwaddod cymysg islanw |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r ardal yn cynnwys gwaddod bras islanw yn bennaf yn y gogledd a gwaddod bras islanw yn y de. Rhoddir trosolwg o'r Ardal Chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 14. |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-B 10 km i'r gorllewin o Ardal Chwilio-B (Gweler Ffigur 8 am fanylion). |

Tabl 13: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-B

| **Diffyg** | **Arwynebedd yn Ardal Chwilio-B (km$^2$)** | **Arwynebedd (km$^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg ym Môr Iwerddon** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 329 km$^2$ | 542 km$^2$ |
| Gwaddod cymysg islanw | 541 km$^2$ | 186 km$^2$ |

Tabl 14: Cyfraniad Ardal Chwilio-B at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru[13]

| **Diffyg** | **Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| Gwaddod bras islanw | Mae arwynebedd yr ardal a geir yn Ardal Chwilio-B ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad yn rhannol. Mae angen 213 km$^2$ ychwanegol o gynefin i unioni'r diffyg. | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth. | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-B yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad am fod cynefin tebyg o fewn 10 km i Ardal Chwilio-A.<br>At hynny, mae'r safle ar y môr ac mewn dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd eraill lle mae'r |

[12] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.
[13] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-B yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod o leiaf 10% o'r nodwedd ddiffygiol yn y rhanbarth | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth. | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-B yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r At hynny, mae'r safle ar y môr ac mewn dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd eraill lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |

### 7.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol

Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.


- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Olew a Nwy: Mae dwy biblinell yn croesi'r Ardal Chwilio ac mae ffynnon olew wedi'i lleoli yn yr ardal.
- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd): Mae pysgota â threillrwydi trawst a lefelau isel o weithgarwch pysgota gwely'r môr, pysgota â threillrwydi canolddwr, rhwydi drysu, pysgodfeydd bachyn a lein a chewyll a thrapiau wedi'u nodi yn yr ardal.

Mae'n bosibl bod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.


Mae Ffigur 15 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.

Cofrestrwyd ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-A gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[14] sy'n cynnwys safleoedd gwaredu a chytundebau sy'n ymwneud â cheblau. Dangosir gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ffigur 16.


[14] Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.




Ffigur 15: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-B wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.




Ffigur 16: Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-B





Ffigur 17: Mesurau rheoli presennol yn Ardal Chwilio-B

Mae Ffigur 17 yn nodi'r mesurau rheoli presennol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-B. Mae'r polygonau a amlinellir mewn glas yn rhan o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010, sy'n cyfyngu ar bysgota am gregyn y brenin (*Pecten maximus*) o fewn y marc penllanw cymedrig i ardal o fewn 1 filltir forol i'r lan o amgylch arfordir cyfan Cymru ac mewn ACAau sy'n cynnwys cynefinoedd morol. Mae ardaloedd ychwanegol sydd i'w gweld i'r gogledd a'r gorllewin o Ynys Môn wedi'u cau oherwydd cofnodion o gregyn dilyw. Mae iVMS wedi'i gosod ar bob cwch sy'n pysgota am gregyn bylchog a chyflwynir y data i is-adran gorfodi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

## 7.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos

Mae un ACA ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol yn gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-B, sef: Slabiau Carbonad Croker a ddangosir yn Ffigur 18. Mae ACA Slabiau Carbonad Croker yn rhoi diogelwch atodol i waddodion bras islanw a gwaddodion cymysg islanw am fod y ddau gynefin i'w cael mewn ardaloedd o nodwedd warchodedig yn yr ACA.




Ffigur 18: Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol sy'n agos i Ardal Chwilio-B.

## 8 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio D

### 8.1 Cyfiawnhad

Mae Tabl 15 yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio-D a rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae pob un o'r Ardaloedd Chwilio ym Môr Iwerddon yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 4.


Tabl 15: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-D

| **Nodwedd Ddiffygiol** | **Cyfiawnhad** |
|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol. Bydd angen Ardal Chwilio arall er mwyn bodloni'r gofyniad yn rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr. |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr. Nid oes angen unrhyw Ardaloedd Chwilio eraill. |
| **Cyfiawnhad: Parthau dyfnder** | |
| Mae Ardal Chwilio-D wedi'i lleoli ar y môr, sy'n helpu i fodloni egwyddor rhwydwaith cysylltedd am fod safleoedd lle mae gwaddodion bras islanw a gwaddodion cymysg islanw eisoes yn cael eu gwarchod wedi'u lleoli ar y glannau. | |

### 8.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-D yn Ffigur 19, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 16. Mae Tabl 17 yn rhoi crynodeb o arwynebeddau'r nodweddion diffygiol (mewn km2) yn Ardal Chwilio-D; cyfanswm yr arwynebedd sydd ei angen i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-D unioni'r diffygion. Mae Tabl 18 yn nodi sut y byddai Ardal Chwilio-D yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 19: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-D

Tabl 16: Disgrifiad o Ardal Chwilio-D

| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-D |
|---|---|
| **Môr Rhanbarthol** | Môr Iwerddon |
| **Lleoliad cyffredinol** | Gorllewin Pen Llŷn |
| **Maint** | 575 km$^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y môr yn unig[15] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Gwaddod bras islanw<br>• Gwaddod cymysg islanw |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r ardal yn cynnwys mosäig gwaddod bras a gwaddod cymysg islanw, y tybir eu bod wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng pob cynefin, er nad yw'r union symiau yn hysbys. Dangosir map trosolwg o'r Ardal Chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 19. |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-D 20 km i'r de o Ardal Chwilio-B a thua 30 km i'r gogledd o Ardal Chwlio-E (Gweler Ffigur 8 am fanylion). |

Tabl 17: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-D

| **Diffyg** | **Arwynebedd yn Ardal Chwilio-D (km$^2$)** | **Arwynebedd (km$^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg ym Môr Iwerddon** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 284 km$^2$ | 542 km$^2$ |
| Gwaddod cymysg islanw | 284 km$^2$ | 186 km$^2$ |

Tabl 18: Cyfraniad Ardal Chwilio-D at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru [16]

| **Diffyg** | **Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| Gwaddod bras islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-B ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad yn rhannol. Mae angen 258 km$^2$ ychwanegol o gynefin i unioni'r diffyg. | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth. | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-D yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r |

[15] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.
[16] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-D yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod o leiaf 10% o'r nodwedd ddiffygiol yn y rhanbarth | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth. | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-D yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |

## 8.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol

Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.


- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd): Mae gweithgareddau pysgota â threillrwydi trawst a llusgrwydo yn gweithredu ar lefelau isel ac yn wasgarog yn yr ardal. Ceir mathau eraill o weithgarwch pysgota yn yr ardal megis bachau a leiniau, pysgota â threillrwydi dyfnforol a chewyll a thrapiau. Fodd bynnag, nid yw'r nodweddion yn sensitif i'r pwysau a achosir gan y gweithgareddau hyn ac, felly, nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach.

Mae'n bosibl bod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Mae Ffigur 20 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.

Ni chofrestrwyd yr un ardal o ddiddordeb sectorol yn yr Ardal Chwilio gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[17].

[17] Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.



Ffigur 20: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-D wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.

## 8.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos

Nid oes unrhyw ACAau ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-D. Yr ACA morol agosaf yw ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

# 9 Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd – Ardal Chwilio-E

## 9.1 Cyfiawnhad

Mae Tabl 19 yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio-E. Mae'r Ardal Chwilio hon yn gorgyffwrdd â môr rhanbarthol yn nyfroedd Cymru. Rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae'r Ardaloedd Chwilio yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 4 ar gyfer Môr Iwerddon a Tabl 5 ar gyfer Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd.


Tabl 19: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-E

| Nodwedd Ddiffygiol | Cyfiawnhad |
|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol. Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol. |
| Tywod islanw | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Cragen Forwyn Fwyaf y Cefnfor | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| **Cyfiawnhad: Parthau dyfnder** | |
| Lleolir Ardal Chwilio-E ar y glannau ac ar y môr sy'n helpu i sicrhau bod egwyddor cysylltedd yn cael ei bodloni. Ym Môr Iwerddon, sicrheir bod Gwaddod bras islanw a Gwaddod cymysg islanw yn cael eu cynrychioli mewn dyfroedd dyfnach. Yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd, sicrheir cynrychiolaeth ar gyfer dyfroedd dyfnach ar gyfer Gwaddod bras islanw, Tywod islanw, Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor a chynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn. | |

## 9.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-E yn Ffigur 21, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 20. Crynodeb o arwynebeddau nodweddion diffygiol (mewn km2) neu nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-E; cyfanswm yr arwynebedd neu nifer yr atgynyrchiadau sydd ei angen/eu hangen i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-E unioni'r diffygion a ddangosir yn Tabl 21 ar gyfer rhan Môr Iwerddon o Ardal Chwilio-E a Tabl 22 a Tabl 23 ar gyfer rhan Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Mae Tabl 24 a Tabl 25 yn nodi sut y byddai Ardal Chwilio-E yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru ym Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd, yn y drefn honno.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 21: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-E

Tabl 20: Disgrifiad o Ardal Chwilio-E

| | |
|---|---|
| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-E |
| **Môr Rhanbarthol** | Môr Iwerddon a Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |
| **Lleoliad cyffredinol** | I'r gogledd ac i'r gorllewin o Sir Benfro, ar y naill ochr a'r llall i'r ffin o 12 milltir forol |
| **Maint** | 880 km$^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y glannau ac ar y môr[18] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Gwaddod bras islanw<br>• Gwaddod cymysg islanw<br>• Tywod islanw<br>• Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor<br>• Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r ardal yn cynnwys gwaddod bras islanw a mosäig gwaddod bras a chymysg islanw yn bennaf gydag ardal fach o dywod islanw tua'r canol. Mae dau gofnod o gragen forwyn fwyaf y Cefnfor a chofnod ar gyfer cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn wedi'u lleoli yn y matrics gwaddodion bras a chymysg islanw yn rhan Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd o'r ardal. Dangosir map trosolwg o'r ardal chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 21 |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-E 10 km i'r gorllewin o Ardal Chwilio-F a 15 km i'r gogledd-ddwyrain o Ardal Chwilio-GH (Gweler Ffigur 8 am fanylion) |

Tabl 21: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-E yn Rhanbarth Môr Iwerddon

| Diffyg | Arwynebedd yn Ardal Chwilio-E (km$^2$) | Arwynebedd (km$^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg ym Môr Iwerddon |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 173 km$^2$ | 542 km$^2$ |
| Gwaddod cymysg islanw | 97 km$^2$ | 186 km$^2$ |

Tabl 22: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-E yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd

| Diffyg | Arwynebedd yn Ardal Chwilio-E (km$^2$) | Arwynebedd (km$^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 414 km$^2$ | 81 km$^2$ |

[18] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.

| | | |
|---|---|---|
| Tywod islanw | 33 km$^2$ | 25 km$^2$ |

Tabl 23: Crynodeb o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau dan fygythiad a/neu sy'n dirywio a nodir ar restr OSPAR a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ar restr dros dro Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a geir yn Ardal Chwilio-E (ardal Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd)

| **Diffyg** | **Nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-E** | **Atgynhyrchiad[19] sydd ei angen i unioni'r diffyg yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd** |
|---|---|---|
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | 2 | Mae angen un atgynhyrchiad |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | 1 | Mae angen un atgynhyrchiad |

Tabl 24: Cyfraniad Ardal Chwilio-E ym Môr Iwerddon at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru[20]

| **Diffyg** | **Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| Gwaddod bras islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad yn rhannol. Mae angen 356 km$^2$ ychwanegol o gynefin i unioni'r diffyg | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Mae'r Ardal Chwilio tua 30 km o ACA lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad yn rhannol. Mae | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth mewn |

[19] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.
[20] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angen 89 km2 ychwanegol o gynefin i unioni'r diffyg | ACAau presennol yn y rhanbarth | dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Mae'r Ardal Chwilio tua 30 km o ACA lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. |

Tabl 25: Cyfraniad Ardal Chwilio-E yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru

| **Diffyg** | **Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| Gwaddod bras islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod o leiaf 10% o'r nodwedd ddiffygiol yn y rhanbarth | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychioliaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safle presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod (llai na 10 km i ffwrdd) |
| Tywod islanw | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod o leiaf 10% o'r nodwedd ddiffygiol yn y rhanbarth | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychioliaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o |

| Diffyg | Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| | | | gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safle presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod (llai na 10 km i ffwrdd) |
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | Gallai nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-E gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. | Gallai nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-E gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i gael un safle ychwanegol yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Fodd bynnag, dim ond dau bwynt data sydd, gydag un ohonynt yn fwy na 10 mlwydd oed. Byddai angen ymchwilio ymhellach | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychioliaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safle presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod (llai na 10 km i ffwrdd) |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Gallai arwynebedd y nodwedd yn Ardal Chwilio-E gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Gallai nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-E gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i gael un safle ychwanegol yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Fodd bynnag, dim ond un pwynt data sydd ac mae'n 10 mlwydd oed. Byddai angen | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-E yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i sicrhau cynrychioliaeth mewn dyfroedd môr mawr a dyfroedd dyfnach o gymharu â safleoedd presennol lle mae'r nodwedd hon yn cael ei gwarchod. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n dda â safle presennol lle mae'r nodwedd hon |

| Diffyg | Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru | | |
|---|---|---|---|
| | Cynrychiolaeth | Atgynhyrchiad | Cysylltedd |
| | | ymchwilio ymhellach | yn cael ei gwarchod (llai na 10 km i ffwrdd) |

## 9.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol





Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.

- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Olew a Nwy: mae piblinellau yn croesi'r Ardal Chwilio
- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd): Mae lefelau isel o bysgota â threillrwydi trawst a threillrwydi dyfnforol a llusgrwydo wedi'u nodi yn yr ardal.


Mae'n bosibl bod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Mae Ffigur 22 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.


Cofrestrwyd ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-E gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[21] sy'n cynnwys cytundeb sy'n ymwneud â cheblau. Dangosir gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ffigur 23.

<table>
<tr>
<td>Ymdrech bysgota ddangosol:<br><br>Isel Uchel</td>
<td>Pysgota â threillrwydi trawst heb fod yn y DU<br>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Pysgota â threillrwydi dyfnforol yn y DU<br>
</td>
<td>Pysgota â threillrwydi dyfnforol heb fod yn y DU<br>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Llusgrwydo yn y DU</td>
<td>Llusgrwydo heb fod yn y DU</td>
</tr>
</table>

[21] Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.



Ffigur 22: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-E wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.




Ffigur 23: Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-E

## 9.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos

Nid oes yr un ACA ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-E. Yr ACA agosaf i IPA-E yw Sir Benfro Forol sy'n llai na 10 km i ffwrdd.

# 10 Môr Iwerddon – Ardal Chwilio-F

## 10.1 Cyfiawnhad

Mae Tabl 26: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-F yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio-F a rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae pob un o'r Ardaloedd Chwilio ym Môr Iwerddon yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 4.


Tabl 26: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-F

| Nodwedd Ddiffygiol | Cyfiawnhad |
|---|---|
| Môr-wyntyllau pinc | Yr unig gyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn llwyr |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus | Mae'n unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon yn rhannol |
| **Cyfiawnhad: Parthau dyfnder** | |
| Mae Ardal Chwilio-F yn ardal glannau ac mae'n cael ei hystyried am ei bod yn cynnwys Môr-wyntyllau pinc a Chymunedau sbwng ac anthosoaid bregus. Mae Gwaddod bras islanw a Gwaddod cymysg islanw yn yr ardal hefyd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod egwyddor rhwydwaith cysylltedd yn cael ei bodloni'n llwyr, byddai angen ardaloedd ychwanegol ar gyfer y nodweddion hyn mewn dyfroedd dyfnach ac, felly, nid ydynt yn cael eu hystyried ymhellach ar y cam hwn yn y broses. | |

## 10.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-F yn Ffigur 24, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 27. Mae Tabl 28 yn nodi nifer y cofnodion o nodweddion diffygiol sy'n cael eu hystyried yn Ardal Chwilio-F; cyfanswm yr atgynyrchiadau sydd eu hangen i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-F unioni'r diffygion. Mae Tabl 29 yn nodi sut y byddai Ardal Chwilio-F yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 24: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-F. Mae nodweddion cynefin ar raddfa fawr wedi'i dileu o'r map hwn gan y bydd Ardal Chwilio-F yn canolbwyntio ar fôr-wyntyllau pinc a sbwng ac anthosoaid bregus yn unig.

Tabl 27: Disgrifiad o Ardal Chwilio-F

| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-F |
|---|---|
| **Môr Rhanbarthol** | Môr Iwerddon |
| **Lleoliad cyffredinol** | Moroedd o amgylch Pen-caer |
| **Maint** | 267 $km^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y glannau yn unig[22] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Môr-wyntyll pinc<br>• Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw |
| **Disgrifiad cryno** | Mae cofnodion o fôr-wyntyllau pinc a chymunedau sbwng ac anthosoaid bregus wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir yn yr ardal. Dangosir map trosolwg o'r ardal chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 24 |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-E 10 km i'r gorllewin o Ardal Chwilio-F (Gweler Ffigur 8 am fanylion) |

Tabl 28: Crynodeb o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau dan fygythiad a/neu sy'n dirywio a nodir ar restr OSPAR a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ar restr dros dro Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a geir yn Ardal Chwilio-F

| **Diffyg** | **Nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F** | **Atgynhyrchiad[23] sydd ei angen i unioni'r diffyg yn rhanbarth Môr Iwerddon** |
|---|---|---|
| Môr-wyntyll pinc | 16 | Bydd safleoedd ychwanegol yn dibynnu ar argaeledd data |
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | 54 | Mae angen 2 atgynhyrchiad |

[22] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.

[23] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.

Tabl 29: Cyfraniad Ardal Chwilio-F ym Môr Iwerddon at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru[24]

| Diffyg | Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru | | |
|---|---|---|---|
| | **Cynrychiolaeth** | **Atgynhyrchiad** | **Cysylltedd** |
| Môr-wyntyll pinc | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli ym Môr Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r pwynt data yn fwy na 10 mlwydd oed. | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F ond yn cynnig cyfleoedd i rannol fodloni'r gofyniad i atgynhyrchu'r nodwedd ym Môr Iwerddon. Fodd bynnag, hon yw'r unig ardal bosibl sydd ar gael i'w hystyried. | Nid oes yr un ACA ym Môr Iwerddon lle mae'r rhywogaeth hon yn cael ei gwarchod ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hon yw'r unig ardal bosibl sydd ar gael i'w hystyried oherwydd argaeledd data |
| Sbwng ac anthosoaid bregus | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli ym Môr Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r pwynt data yn fwy na 10 mlwydd oed | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F ond yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i atgynhyrchu'r nodwedd ym Môr Iwerddon yn rhannol . Mae angen un enghraifft arall er mwyn sicrhau'r isafswm o 3 atgynhyrchiad | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-F yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gyda chynefinoedd tebyg nad yw'n fwy nag 80 km oddi wrth ei gilydd |

## 10.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol

Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.


- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Olew a Nwy: mae piblinellau yn croesi'r Ardal Chwilio
- Carthu Morol a Gwaredu: mae safle gwaredu yn gorgyffwrdd ychydig â dwyrain yr ardal.
- Morgludiant ac Angorfeydd: ceir angorfa yn yr ardal.
- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd)

[24] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

Gwyddys fod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon (e.e. pysgota â chewyll). Fodd bynnag, nid oes gennym ddata cyfredol cynhwysfawr i'w cynnwys ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Mae Ffigur 15 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.


Cofrestrwyd ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-F gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[25] sy'n cynnwys cytundeb arfordirol a chytundeb sy'n ymwneud â cheblau. Dangosir gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ffigur 26.





Ffigur 25: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-F wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos

[25] Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.

gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.




Ffigur 26: Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-F




Ffigur 27: Mesurau rheoli presennol yn Ardal Chwilio-F

Mae Ffigur 27 yn nodi'r mesurau rheoli presennol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-F. Mae'r polygonau a amlinellir mewn glas yn rhan o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010, sy'n cyfyngu ar bysgota am gregyn y brenin (*Pecten maximus*) o fewn y marc penllanw cymedrig i ardal o fewn 1 filltir forol i'r lan o amgylch arfordir cyfan Cymru ac mewn ACAau sy'n cynnwys cynefinoedd morol. Mae iVMS wedi'i gosod ar bob cwch sy'n pysgota am gregyn bylchog a chyflwynir y data i is-adran gorfodi pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

## 10.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos

Nid oes yr un ACA ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-F. Yr ACA Morol agosaf yw Sir Benfro Forol, y mae'r rhan fwyaf ohoni wedi'i lleoli yn Rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd.

## 11 Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd – Ardal Chwilio-GH

### 11.1 Cyfiawnhad

Mae Ardal Chwilio-GH yn safle mawr sydd wedi'i leoli bron yn gyfan gwbl ar y môr yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Mae'n ardal arbennig o bwysig o ran cwblhau rhwydwaith Parthau Cadwraeth Morol Cymru gan y gallai unioni chwech o'r diffygion yn y rhanbarth yn llwyr ac am mai dyma'r unig gyfle i unioni'r diffyg cymunedau Cwiliau Môr a Megaffawna Turiol yn y rhanbarth hwn. Gan fod y rhan fwyaf ohoni wedi'i lleoli ar y môr, mae hefyd yn helpu i unioni'r diffyg cynefinoedd ar raddfa fawr sy'n cael eu gwarchod mewn dyfroedd dyfnach.

Mae Tabl 30 yn crynhoi'r rhesymau pam y dewiswyd Ardal Chwilio-GH a rhoddir crynodeb o'r ffordd y mae pob un o'r Ardaloedd Chwilio yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn unioni'r diffygion yn y rhanbarth yn Tabl 5.

Tabl 30: Cyfiawnhad dros y Nodweddion Diffygiol yn Ardal Chwilio-GH


| Nodwedd Ddiffygiol | Cyfiawnhad |
|---|---|
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Tywod islanw | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Gwaddod bras islanw | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Llaid islanw | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | Cyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | Yr unig gyfle i unioni'r diffyg yn rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd yn llwyr |
| **Cyfiawnhad: Parthau dyfnder** | |
| Mae Ardal Chwilio-GH wedi'i lleoli ar y môr yn bennaf. Byddai'n cyfrannu'n fawr at egwyddor rhwydwaith cysylltedd drwy ddarparu nodweddion cynefin ar raddfa fawr mewn dyfroedd dyfnach. | |

### 11.2 Trosolwg

Rhoddir trosolwg o ddosbarthiad nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-GH yn Ffigur 28, a cheir disgrifiad o'r ardal yn Tabl 31. Mae Tabl 32 a Tabl 33 yn rhoi crynodeb o arwynebeddau nodweddion diffygiol (mewn $km^2$) neu nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-GH; cyfanswm yr arwynebedd neu nifer yr atgynyrchiadau sydd ei angen/eu hangen i unioni'r diffyg yn y rhanbarth; ac a oes cyfle i Ardal Chwilio-GH unioni'r diffygion. Mae Tabl 34 yn

nodi sut y byddai Ardal Chwilio-GH yn cyfrannu at y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nyfroedd Cymru.

Ceir gwybodaeth am bob un o'r nodweddion diffygiol yn Atodiad A.




Ffigur 28: Trosolwg o'r nodweddion diffygiol yn Ardal Chwilio-GH

Tabl 31: Disgrifiad o Ardal Chwilio-GH

| **Ardal Chwilio** | Ardal Chwilio-GH |
|---|---|
| **Môr Rhanbarthol** | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |
| **Lleoliad cyffredinol** | Rhan dde-orllewinol dyfroedd môr mawr Cymru, o amgylch Celtic Deep |
| **Maint** | 4,526km$^2$ |
| **Ar y glannau/ar y môr** | Ar y glannau ac ar y môr (ar y môr yn bennaf)[26] |
| **Nodweddion diffygiol** | • Gwaddod bras islanw<br>• Llaid islanw<br>• Tywod islanw<br>• Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor<br>• Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn<br>• Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol |
| **Disgrifiad cryno** | Mae'r ardal yn cynnwys llaid islanw yn bennaf yn y canol, gyda thywod islanw o'i amgylch ac ardaloedd bach o waddod bras islanw. Mae pen gogleddol yr ardal yn cynnwys mwy o waddod a thywod bras islanw. Mae cofnodion o gymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol wedi'u lleoli ar draws yr ardal o laid islanw gyda chofnodion o gynefinoedd lleidiog mewn dŵr dyfnach. Ceir un cofnod o gregyn morwyn mwyaf y Cefnfor yn nwyrain yr ardal. Dangosir map trosolwg o'r Ardal Chwilio a dosbarthiad y nodweddion diffygiol yn Ffigur 28. |
| **Agosrwydd i Ardaloedd Chwilio eraill** | Lleolir Ardal Chwilio-GH tua 20 km i'r gorllewin o Ardal Chwilio-E (Gweler Ffigur 8 am fanylion). |

Tabl 32: Crynodeb o gynefinoedd ar raddfa fawr yn Ardal Chwilio-GH

| **Diffyg** | **Arwynebedd yn Ardal Chwilio-GH (km$^2$)** | **Arwynebedd (km$^2$) sydd ei angen i unioni'r diffyg yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd** |
|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | 114 km$^2$ | 81 km$^2$ |
| Llaid islanw | 2,852 km$^2$ | 215 km$^2$ |
| Tywod islanw | 1,493 km$^2$ | 25 km$^2$ |

[26] Dyfroedd y glannau yw'r rhai rhwng penllanw cymedrig y gorllanw a'r terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol. Dyfroedd y môr mawr yw'r rhai rhwng y terfyn moroedd tiriogaethol o 12 milltir forol a'r llinell ganol.

Tabl 33: Crynodeb o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau dan fygythiad a/neu sy'n dirywio a nodir ar restr OSPAR a'r cynefinoedd a'r rhywogaethau ar restr dros dro Adran 7 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a geir yn Ardal Chwilio-GH

| Diffyg | Nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-GH | Atgynhyrchiad[27] sydd ei angen i unioni'r diffyg yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd |
|---|---|---|
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | 1 | Mae angen un atgynhyrchiad |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | 32 | Mae angen un atgynhyrchiad |
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | 647 | Mae angen un atgynhyrchiad |

Tabl 34: Cyfraniad Ardal Chwilio-GH at rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru[28]

| Diffyg | Meini prawf asesu rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig Cymru | | |
|---|---|---|---|
| | Cynrychiolaeth | Atgynhyrchiad | Cysylltedd |
| Gwaddod bras islanw | Gallai arwynebedd y nodwedd yn Ardal Chwilio-GH gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |
| Llaid islanw | Gallai arwynebedd y nodwedd yn Ardal Chwilio-GH gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan ACAau presennol yn y rhanbarth | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |
| Tywod islanw | Gallai arwynebedd y nodwedd yn Ardal Chwilio-GH gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y | Mae'r gofyniad hwn eisoes wedi'i fodloni am fod y nodwedd yn cael ei gwarchod gan | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r |

[27] Mae atgynhyrchiad yn cyfeirio at Ardal Forol Warchodedig y mae'r nodwedd yn cael ei gwarchod oddi mewn iddi. Dylai atgynhyrchiad gynnwys sawl cofnod o'r nodwedd.
[28] Esbonnir yr egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith Ardaloedd Morol Cymru yn y Ddogfen ar y Broses

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | ACAau presennol yn y rhanbarth | ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i rannol fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i gael un safle ychwanegol yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd. Fodd bynnag, dim ond un pwynt data sydd ac mae'n fwy na 10 mlwydd oed. Byddai angen ymchwilio ymhellach | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Gallai arwynebedd y nodwedd yn Ardal Chwilio-GH gynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i gael un safle ychwanegol yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd gyda phwyntiau data sy'n fwy na 10 mlwydd oed. | Mae arwynebedd y nodwedd a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | Mae nifer y cofnodion yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad bod y nodwedd yn cael ei chynrychioli yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad i gael un safle ychwanegol yng Ngorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd, gyda phwyntiau data sy'n fwy na 10 mlwydd oed. | Mae nifer y cofnodion a geir yn Ardal Chwilio-GH yn cynnig cyfleoedd i fodloni'r gofyniad gan y byddai'r ardal hon ar y môr yn sicrhau cynrychiolaeth mewn parthau dyfnder a gwella cysylltedd ar draws y rhwydwaith |

### 11.3 Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol

Mae'r rhestr ganlynol o weithrediadau yn cynnwys gweithgareddau y gwyddys eu bod yn cael eu cynnal yn yr ardal ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â phwysau y gwyddys fod y nodweddion yn sensitif iddynt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Ystyriaethau.


- Gweithgarwch yn gysylltiedig ag Olew a Nwy: mae sawl piblinell yn croesi'r ardal.
- Gweithgarwch pysgota dyfnforol (cychod 12m a mwy o hyd): gweler isod am lefelau dangosol o weithgarwch pysgota yn yr ardal.
- ardaloedd trwyddedig ar gyfer ffermydd gwynt arnofiol ar y môr

Gwyddys fod gweithgareddau pysgota eraill yn cael eu cynnal yn yr ardal hon, o bosibl (e.e. gweithgarwch pysgota dyfnforol gan gychod llai na 12m o hyd). Fodd bynnag, nid oes gennym ddata cyfredol cynhwysfawr i'w cynnwys ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach er mwyn nodi ardaloedd allweddol ar gyfer gweithgareddau pysgota eraill.

Mae Ffigur 29 yn rhoi rhyw syniad o'r gweithgarwch pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) sy'n cael ei gynnal yn yr ardal. Gweler yr adran Ystyriaethau am fanylion am gyfyngiadau'r set ddata hon.


Cofrestrwyd ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-GH gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen[29] sy'n cynnwys safleoedd gwaredu, cytundebau sy'n ymwneud â cheblau, cytundebau arfordirol, gwynt, a thonnau a llanw. Dangosir gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ffigur 30.

[29] Noder bod ardaloedd o ddiddordeb sectorol wedi'u darparu gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac na ddylid ystyried eu bod yn rhestr ddiffiniol.




Ffigur 29: Gweithgarwch Pysgota (cychod 12m neu fwy o hyd) yn Ardal Chwilio-GH wedi'i ddehongli o ddata wedi'u symio'r System Monitro Cychod ar gyfer 2016-2018. Noder na ellir cymharu'r ystodau rhwng gêr pysgota ac y dylid ystyried eu bod ond yn dangos

gweithgarwch pysgota. Mae bar graddfa cyffredinol wedi'i ddarparu i ddangos lefelau dangosol o isel (gwyrdd) i uchel (coch). Dangosir yr Ardal Chwilio fel y blwch gwyrdd.






Ffigur 30: Gweithgareddau ac ardaloedd o ddiddordeb sectorol yn Ardal Chwilio-H


## 11.4 Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol cyfagos


Nid oes yr un ACA ar gyfer gwarchod cynefinoedd morol sy'n gorgyffwrdd ag Ardal Chwilio-GH.

## 12 Atodiad A: Diffygion yn y rhwydwaith sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd

| Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm dros y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle y ceir y diffyg | Disgrifiad byr o'r nodwedd | Llun o'r nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Gwaddod bras islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Môr Iwerddon<br><br>Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Tywod bras, graean, cerrig crynion, cerrig mân a choblau sydd wedi'u gorchuddio â dŵr heli bob amser. Mae'r cynefin hwn yn aml yn ansefydlog oherwydd cerhyntau llanw a/neu symudiad y tonnau. |   |
| Tywod islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Gwely môr tywodlyd sydd dan ddŵr bob amser. Mae symudiad y tonnau yn lleihau'r rhan fwyaf o laid a chlai gan adael cynefin rhydd, cyfnewidiol sy'n gartref i rywogaethau fel lledod a llymrïaid. |   |

| Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm dros y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle y ceir y diffyg | Disgrifiad byr o'r nodwedd | Llun o'r nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Llaid islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Lleidiau tywodlyd cydlynus a llaid sydd wedi'i orchuddio â dŵr heli bob amser. Mae'n ymestyn o'r lan isaf bellaf i gynefinoedd dyfnforol ar y môr |   |
| Gwaddod cymysg islanw | Mae llai na 10% o'r arwynebedd yn cael ei warchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol | Môr Iwerddon | Mae'r cynefin hwn yn cynnwys amrywiaeth o waddodion gan gynnwys tywodydd graeanog lleidiog a mosaigau o goblau a cherrig crynion sydd yn y gwaddod neu sy'n gorwedd arno. Gall y cyfuniad hwn o waddodion a cherrig mân alluogi i amrywiaeth o anifeiliaid fyw yn y gwaddod ac ar y coblau a'r cerrig crynion. |  |


| Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm dros y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle y ceir y diffyg | Disgrifiad byr o'r nodwedd | Llun o'r nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau sbwng ac anthosoaid bregus ar gynefin creigiog islanw | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Môr Iwerddon | Mae'r gymuned hon yn cynnwys sbyngau sy'n tyfu ar wely'r môr ac anthosoaid (cwrelau meddal, cwiliau môr ac anemonïau cytrefol). Mae angen symudiad dŵr digonol arnynt i ddod â chyflenwad parod o fwyd atynt. O ganlyniad, fe'u ceir ar lannau sy'n agored i donnau neu gerhyntau ond hefyd gyda chysgod lleol rhag grym llawn y tonnau a'r llanwau. |   |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Lleidiau tywodlyd cydlynus a geir mewn dyfroedd sy'n ddyfnach nag 20m. |   |

| Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm dros y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle y ceir y diffyg | Disgrifiad byr o'r nodwedd | Llun o'r nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau cwiliau môr a megaffawna turiol | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Ar wastadeddau sefydlog o fân laid, gall ardaloedd o wely'r môr gael eu nodi gan dwmpathau amlwg a wneir gan anifeiliaid fel mwydod folcano, tyllau (e.e. tyllau a wneir gan gimychiaid Norwy a chramenogion eraill) a chwiliau môr bregus sy'n ymestyn i fyny i'r dŵr er mwyn casglu bwyd. |  |
| Riff mwydod Ross | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Môr Iwerddon | Mae mwydod Ross (*Sabellaria spinulosa*) yn cysylltu gronynnau tywod â'i gilydd i ffurfio tiwb. Fe'u ceir yn unigol neu mewn cydgrynoadau sy'n ffurfio riffau mawr. Mewn riff mae tiwbiau'r mwydod yn codi'n fertigol o'r gwely môr tywodlyd neu raeanog sy'n darparu cynefin a bwyd i anifeiliaid môr eraill megis crancod a physgod ifanc. |  |


| Diffyg yn y rhwydwaith yn nyfroedd Cymru | Rheswm dros y Diffyg | Rhanbarth CP2 lle y ceir y diffyg | Disgrifiad byr o'r nodwedd | Llun o'r nodwedd |
|---|---|---|---|---|
| Cragen forwyn fwyaf y Cefnfor<br><br>*Arctica islandica* | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd | Ceir cregyn morwyn mwyaf y Cefnfor ychydig o dan lefel distyll hyd at ddyfnder o tua 500m.  Maent yn byw wedi'u claddu mewn gwaddod, yn aml wedi'u cuddio'n llwyr gyda dim ond tiwb bach yn ymestyn i fyny at wyneb gwely'r môr. Gallant fyw dros 500 mlynedd. |  |
| Môr-wyntyll pinc<br><br>*Eunicella verrucosa* | Mae llai na 3 atgynhyrchiad yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol. | Môr Iwerddon | Mae'r môr-wyntyll pinc sy'n tyfu'n araf yn byw mewn ardaloedd o gerhyntau cryf ar riffau creigiog. Mae'r canghennau wedi'u gorchuddio â chwyddau bach y mae strwythurau bach tebyg i anemonïau yn dod allan ohonynt i fwyta. Gallant dyfu hyd at 50cm a gallant fyw am 100 mlynedd. |  |

## 13 Atodiad B: Hyder yn nata cynefinoedd ar raddfa fawr

Daw'r diffygion ar gyfer Gwaddodion bras islanw a Gwaddodion cymysg islanw o fap cyfunedig y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae'r set ddata hon yn cynnwys amrywiaeth o ddata acwstig ynghyd â gwaith gwirio drwy arsylwi ar y safle (a gafwyd o arolygon) a data sydd wedi dod o UKSeaMap, sef set ddata wedi'i modelu sy'n seiliedig ar nifer o baramedrau ffisegol. Dengys y map isod lle y ceir y gwahaniaeth hwn gydag ardaloedd llwyd tywyll yn dangos data a gafwyd o arolygon gyda lefel hyder uwch ac ardal lwyd golau o ddotwaith yn dangos data â lefel hyder is.




Ffigur 31 Hyder yn nata cynefinoedd ar raddfa fawr ar gyfer rhanbarth Môr Iwerddon




Ffigur 32 Hyder yn nata cynefinoedd ar raddfa fawr ar gyfer rhanbarth Gorllewin y Sianel a'r Môr Celtaidd